Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Ystafell Bwyllgor 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M Durke | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P Jones | I E Mann | G J Tanner |
| W G Thomas | | |

| Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins
Aelodau Cyfetholedig(wyr): D Anderson-Thomas

---

## 69 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 70 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 71 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2017 a chofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

**72 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**73 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach (y Cynghorydd Will Evans)**

Rhoddodd y Cynghorydd Will Evans, Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach, anerchiad llafar mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau ag Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Y berthynas â'r trydydd sector (sector gwirfoddol) a'i gyfraniad at gefnogi blaenoriaethau portffolio
- Cyflwyniadau gan Gyngor ar Bopeth ar Gredyd Cynhwysol
- Ymateb a chyhoeddusrwydd ynghylch y digwyddiad 'Gyda'n Gilydd dros y Nadolig' a gynhelir yn Neuadd Brangwyn
- Diwedd Cymunedau'n Gyntaf a phontio
- Cronfa Waddol Cymunedau'n Gyntaf – pa ddangosyddion perfformiad fyddai ar waith i fesur yr amcanion/y canlyniadau
- Cyllid, cynaladwyedd a pharhad y gwaith a gyflwynir gan y sefydliad Ffydd mewn Teuluoedd
- Cyflwyno Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy
- Rhaglenni megis Gweithffyrdd+ a CAM NESA sy'n gweithio tuag at gynyddu cyflogadwyedd
- Nodi agweddau cadarnhaol ar Gymunedau'n Gyntaf er mwyn parhau â hwy dan y rhaglen newydd
- Cyflwyniad ar ymagwedd Abertawe’n Gweithio
- Rhandiroedd a phrosiectau mynediad i fwyd a thyfu
- Creu Menter Bwyd (cwmni budd cymunedol)
- Cyngor i gynghorwyr lleol ar gefnogaeth ar gyfer problemau cyffuriau/alcohol

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan amlinellu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor, gan gynnwys cais am ymateb i'r canlynol: -

1) Sut mesurir canlyniadau/effeithiolrwydd y gwaith a wneir oherwydd y Gronfa Waddol;
2) Faint o'r Gronfa Waddol a fyddai'n cael ei dyrannu i Ffydd mewn Teuluoedd ac ym mha ardaloedd y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio;
3) A fydd adroddiadau gorffen/gwerthuso ar Gymunedau'n Gyntaf ar gael i'r cyhoedd; Ac
4) A fydd cyfleusterau/cefnogaeth ar gael ar gyfer problemau o ran cyffuriau/alcohol.

## 74 Rhaglen Abertawe Gynaliadwy - Adolygiadau Comisiynu: Meysydd Gwasanaeth - y Diweddaraf ar ôl eu Rhoi ar Waith.

Roedd y Dirprwy Arweinydd, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro, y Cyfarwyddwr Lleoedd a Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy'n bresennol wrth i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad am 'Rhaglen Abertawe Gynaliadwy – Adolygiadau Comisiynu: Meysydd Gwasanaeth – Adolygiadau ar ôl eu Rhoi ar Waith'.

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd a Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy anerchiad llafar yn ogystal â'r adroddiad a ddarparwyd, a dynnodd sylw at ddiben adolygiadau comisiynu yn y rhaglen gyffredinol, y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i fonitro gweithredu a'r effaith a gafwyd, y cyflawniadau, y gwersi a ddysgwyd a phwysigrwydd darparu sicrwydd i'r tîm craffu am gynnydd a chyflwyno gweithgareddau trawsnewid.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Dirprwy Arweinydd a swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Sicrhau bod yr adolygiadau comisiynu'n darparu/arddangos gwerth am arian
- Yr angen am adolygiadau comisiynu i ddangos yr ystyrir barn/canfyddiadau'r cyhoedd am gyflwyno gwasanaethau a newidiadau posib yn ystod y broses adolygu
- Craffu posib ar benderfyniadau yn y dyfodol o ran gwasanaethau diwylliant a hamdden
- Llwyddiant yr Adolygiad Comisiynu Rheoli Gwastraff
- Adolygiad Comisiynu Parciau a Glanhau – y graddau roedd hyn yn ymwneud ag ystyried 'ffrindiau' grwpiau cymunedol
- Gwaith sy'n cael ei wneud wrth archwilio gweithio mewn partneriaeth ynghylch y Gerddi Botaneg
- Penderfyniadau a wnaed ynghylch y Gwasanaeth Archifau fel rhan o'r adolygiad o ddiwylliant a hamdden ac opsiynau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol
- Adolygiad Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru
- Gwersi a ddysgwyd drwy'r broses
- Arbedion a gafwyd hyd yn hyn ac arbedion rhagamcanol ar gyfer 2018/19 - nodwyd y gellir darparu mwy o fanylion ar yr arbedion ariannol yn adroddiadau'r dyfodol
- Camau nesaf – adolygiadau sydd ar ôl

**Penderfynwyd** nodi'r adborth gan y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor yn rheolaidd (bob chwe mis) am roi camau gweithredu ar waith a chyflawniadau o ran adolygiadau comisiynu.

## 75 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Chris Holley am gynnydd y Panel Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid. Tynnodd sylw at y gwaith a wnaed gan y panel ynghyd â chyflawniadau/effaith y panel. Tynnodd sylw at gyllid a gweithgareddau monitro perfformiad y panel yn ogystal â'i waith wrth graffu cyn

penderfynu ar adolygiadau comisiynu. Pwysleisiodd fod Adolygiad Comisiynu Diogelu'r Cyhoedd yn enghraifft ardderchog o adolygiad comisiynu effeithiol.

Hefyd nodwyd Rhaglen Waith y Dyfodol, a fydd yn cynnwys ystyried Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant a chodi taliadau o ran priffyrdd a gwastraff.

Yna bu trafodaeth am Safonau'r Gymraeg, a ystyriwyd gan y panel ym mis Hydref, o ran canfyddiadau'r cyhoedd am y perfformiad yn ogystal â'r gallu i fodloni'r Safonau, a'r ffordd fwyaf effeithlon o wneud hynny, e.e. defnyddio technoleg i gefnogi a datblygu cyfieithu.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 76 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cadeirydd am aelodaeth y Panel/Gweithgor Craffu.

Cafwyd anerchiad gan y Cynghorydd Peter Jones ar yr ymchwiliad arfaethedig a fydd yn canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Abertawe. Tynnodd sylw'n benodol at yr angen i archwilio pa mor dda y mae'r cyngor wedi rheoli ei amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth o dan ddeddfwriaeth flaenorol, ynghyd â'r hyn y bydd ei angen i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol newydd.

**Penderfynwyd**: -

1) Ychwanegu'r cynghorwyr Mike Durke, Oliver James, Peter Jones, Sam Pritchard a Brigitte Rowlands at y Gweithgor Ceffylau ar Dennyn sy'n cael ei ailgynnull; ac
2) Y bydd y Cynghorydd Peter Jones yn cynnull yr ymchwiliad newydd ar amgylchedd naturiol Abertawe ac adroddir am yr aelodaeth arfaethedig yng nghyfarfod nesaf y Rhaglen Graffu.

## 77 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Cyflwynodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r pwyllgor am Raglen Waith Craffu 2017/18. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r Arweinydd yn dod i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer y sesiwn holi ac ateb, a gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor feddwl am gwestiynau.

Cynigiwyd creu gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Archifau a datganodd y Cadeirydd yr ystyrir hyn yn y cyfarfod nesaf ar gyfer ei gynnwys yn y rhaglen waith.

Roedd dyddiad ansicr wedi'i bennu ar gyfer cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Rhaglen Graffu ar 26 Mawrth 2018 ar gyfer Craffu ar Droseddu ac Anhrefn.

Rhoddodd Arweinydd y Tîm Craffu wybod i'r pwyllgor y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n ystyried y trefniadau craffu yn Abertawe. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n arsylwi ar o leiaf un cyfarfod pwyllgor yn ogystal â nifer o gyfarfodydd paneli. Mae'n debyg yr ymgymerir â gwaith maes ym mis Chwefror, a fyddai'n cynnwys cyfweld â

rhai swyddogion ac aelodau. Bydd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd yr adolygiad yn ogystal â seminar dysgu a rennir.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi'r diweddariad; ac
2) Ystyried gweithgor newydd ar gyfer y Gwasanaeth Archifau yn y cyfarfod nesaf.

## 78 Llythyrau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu. Amlinellodd y Cadeirydd y pwyntiau allweddol o ohebiaeth ag Aelodau'r Cabinet, a amlygir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad.

**Penderfynwyd** cytuno i gais y Gweithgor Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb am gyfarfod arall i ganolbwyntio ar gydlyniant cymunedol.

## 79 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 80 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.10 pm

**Cadeirydd**